

## REES, JAMES (1803 - 1880), argraffydd a chyhoeddwr

**Enw:** James Rees  
**Dyddiad geni:** 1803  
**Dyddiad marw:** 1880  
**Rhyw:** Gwryw  
**Galwedigaeth:** argraffydd a chyhoeddwr  
**Maes gweithgaredd:** Argraffu a Chyhoeddi  
**Awdur:** Moelwyn Idwal Williams

Ganwyd yng Nghaerfyrddin, 1803. Ar ôl treulio rhai blynyddoedd yn Llundain aeth i Gaernarfon tua 1831 fel 'foreman' yn swyddfa William Potter a'i Gwmni. Tua 1840, ar ôl ymneilltuad Potter, ymgwyrodd Rees a dwyn ymlaen y swydd fel olynydd iddo. Yn ychwanegol at gyhoeddi y *Carnarvon and Denbigh Herald* cychwynnodd yr *Herald Cymraeg* yn 1854 fel newyddiadur ceiniog (gyda James Evans yn olygydd), a bu'n gyfrifol am y ddau newyddiadur hyd 1871 pan gymerwyd hwynt drosodd gan John Evans, Caellenor, Caernarfon. Cafodd ei wneud yn henadur a bu'n faer y dref fwy nag unwaith. Mewn gwleidyddiaeth yr oedd yn Rhyddfrydwr twymgalon. Bu farw 21 Mehefin 1880 yn Heol y Castell, Caernarfon.

### Awdur

Dr Moelwyn Idwal Williams

### Ffynonellau

- Y Traethodydd*, 1901, 278  
*Seren Cymru*, 1880 (Gorffennaf)  
*Baner ac Amserau Cymru*, 26 Mehefin 1880  
*Y Goleuad*, 26 Mehefin 1880  
*Yr Herald Cymraeg*, 23 Mehefin 1880

### Dolenni Ychwanegol

VIAF: 316792496

Wikidata: Q20733334

**Dyddiad cyhoeddi:** 1953

**Hawlfraint Erthygl:** <http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/>

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchfrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n [tudalen codi arian](#) am ragor o wybodaeth.

Arddull APA

Williams, M. I., (1953). REES, JAMES (1803 - 1880), argraffydd a chyhoeddwr. *Y Bywgraffiadur Cymreig*. Adferwyd 18 Tac 2024, o <https://bywgraffiadur.cymru/article/c-REES-JAM-1803>

LGC  
NLW

LLYFRGEL  
THE NATION



Ysgrifeddi  
Llywodraeth Cymru  
Copied by  
Welsh Government